# EISTEDDFOD PWLLGLAS

**yn Neuadd y Pentref Pwllglas, ger Rhuthun, LL15 2PB**

# DYDD SADWRN, MAI 20fed 2023

## Amser dechrau:

**Prynhawn: 12:00 o'r gloch  Hwyr: 6:00 y.h**

## Beirniaid:

**Cerdd, Cerdd Dant a Chyfansoddi Tôn**:
Mr Trystan Lewis, Yr Hen Reithordy, Llanfairtalhaiarn, Conwy

**Llefaru, Llên a Barddoniaeth:**
Mr Dennis Davies, Gwenallt, Ffordd Llanddoged,
Llanrwst, LL26 0DW

**Arlunio a Gwaith Llaw:**
Mrs Jan Roberts, Rhuthun

**Coginio a Gosod Blodau:**
Mrs Jane Jones, Rhuthun

## Cyfeilyddion:

Robat Arwyn, Y Dalar, Lôn Cae Glas, Rhuthun
Ann Edwards, Bodeirian, Prion, Dinbych, LL16 4SA

## Arweinyddion:

Awen Williams, Gwawr Williams,
Menai Williams a Hywel Roberts

## Pris Mynediad:

Prynhawn: Oedolion £3.00 Plant 50c
Hwyr: Oedolion £3.00 Plant 50c
Dau gyfarfod : £5.00
Darperir bwyd am bris rhesymol

# Swyddogion y Pwyllgor

***Llywydd:*** *Susan Edwards, Ty Brith, Pandy'r Capel, Corwen*

***Ysgrifennydd:*** *Hawys Roberts, 89 Parc y Dre, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1PG 07507 842413 / eisteddfodpwllglas@gmail.com*

***Trysorydd:*** *Richard Roberts*

***Is – drysorydd:*** *Glain Jones*

***Prif Stiward:*** *Berwyn Dolben*

***Noder: Bydd sesiwn y prynhawn yn dechrau am 12:00 o'r gloch, felly'r gobaith yw y bydd cyfarfod yr hwyr yn cychwyn yn brydlon am 6 o'r gloch.***

**Cydnabyddir cyfraniadau hael gan:**

Ymddiriedolaeth James, Pantyfedwen £282
Jones Brothers, Rhuthun
RM Jones Joinery, Rhuthun

# Cyfarfod y Prynhawn (i ddechrau am 12 o'r gloch)

## CERDDORIAETH AC OFFERYNNOL

| | | |
|---|---|---|
| **1. Unawd dosbarth derbyn ac iau** | Hunanddewisiad | **£6.00 i'w rannu** |
| **2. Unawd Blwyddyn 2 ac iau** | Mr Triongl (Fel yr Urdd) | **£7.00 i'w rannu** |
| **3. Unawd Blwyddyn 3 a 4** | Dere Di, Dere Do (Fel yr Urdd) | **£8.00 i'w rannu** |
| **4. Unawd Blwyddyn 5 a 6** | Hydref (Fel yr Urdd) | **£10.00 i'w rannu** |
| **5. Cerdd dant Blwyddyn 2 ac iau** | Tyfu'n Hen (Fel yr Urdd) | **£7.00 i'w rannu** |
| **6. Cerdd dant Blwyddyn 3 a 4** | Un Galon (Fel yr Urdd) | **£8.00 i'w rannu** |
| **7. Cerdd dant Blwyddyn 5 a 6** | Sêr y Dydd (Fel yr Urdd) | **£10.00 i'w rannu** |
| **8. Unawd piano dan 12 oed** | Un darn o ddewisiad - *Tlws Blynyddol Mrs Gwenda Jones, Dinbych* | **£10.00 i'w rannu** |
| **9. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd (ar wahân i'r piano) dan 12 oed** | Un darn o ddewisiad (hyd at 4 munud) | **£10.00 i'w rannu** |
| **10. Unawd Alaw Werin dan 12 oed** | Hunanddewisiad | **£10.00 i'w rannu** |
| **11. Deuawd dan 12 oed** | Hunanddewisiad | **£8.00, £6.00, £4.00** |
| **12. Parti Unsain neu ddeulais dan 12 oed** | Hunanddewisiad | **£20.00 i'w rannu** |

## LLEFARU

| | | |
|---|---|---|
| **13. Llefaru dosbarth derbyn ac iau** | Hunanddewisiad | **£6.00 i'w rannu** |
| **14. Llefaru Blwyddyn 2 ac iau** | Gwesty Moethus (Fel yr Urdd) | **£7.00 i'w rannu** |
| **15. Llefaru i ddysgwyr Blwyddyn 2 ac iau** | Glaw (Fel yr Urdd) | **£7.00 i'w rannu** |
| **16. Llefaru Blwyddyn 3 a 4** | Ar ôl Methu Unwaith (Fel yr Urdd) | **£8.00 i'w rannu** |
| **17. Llefaru i ddysgwyr Blwyddyn 3 a 4** | Fy Nheulu a Fi (Fel yr Urdd) | **£8.00 i'w rannu** |
| **18. Llefaru Blwyddyn 5 a 6** | Yr Hen Dŷ Gwag (Fel yr Urdd) | **£10.00 i'w rannu** |
| **19. Llefaru i ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6** | Siopa (Fel yr Urdd) | **£10.00 i'w rannu** |
| **20. Parti llefaru dan 12 oed** | Hunanddewisiad | **£20.00 i'w rannu** |

## LLENYDDIAETH (RHYDDIAITH)

| | | |
|---|---|---|
| **21. Blwyddyn 2 ac iau** | 5 brawddeg a llun 'Yr Ysgol' | **£7.00 i'w rannu** |
| **22. Blwyddyn 3 a 4** | Diwrnod Mawr | **£8.00 i'w rannu** |
| **23. Blwyddyn 5 a 6** | Dyddiadur Wythnos Person Enwog | **£10.00 i'w rannu** |

## ARLUNIO

| | | |
|---|---|---|
| **24. 3 oed ac iau** | Wyneb | **£5.00 i'w rannu** |
| **25. Meithrin a Derbyn** | Fi fy hun | **£5.00 i'w rannu** |
| **26. Blwyddyn 1 a 2** | Teulu | **£7.00 i'w rannu** |
| **27. Blwyddyn 3 a 4** | Llun dy ffrind | **£8.00 i'w rannu** |
| **28. Blwyddyn 5 a 6** | Fy Arwr | **£10.00 i'w rannu** |

## GWAITH LLAW

| | | |
|---|---|---|
| **29. 3 oed ac iau** | Ffon hud | **£5.00 i'w rannu** |
| **30. Meithrin a Derbyn** | Addurno jar | **£5.00 i'w rannu** |
| **31. Blwyddyn 1 a 2** | Mwgwd anifail | **£7.00 i'w rannu** |
| **32. Blwyddyn 3 a 4** | Eitem wedi'i wneud o lego | **£8.00 i'w rannu** |
| **33. Blwyddyn 5 a 6** | Unrhyw eitem o ddefnydd ailgylchu | **£10.00 i'w rannu** |

## COGINIO

| | | |
|---|---|---|
| **34. Derbyn ac iau** | Wyneb bwytadwy | **£5.00 i'w rannu** |
| **35. Blwyddyn 1 a 2** | Wrap wedi'i llenwi | **£7.00 i'w rannu** |
| **36. Blwyddyn 3 a 4** | 3 'rocky road' | **£8.00 i'w rannu** |
| **37. Blwyddyn 5 a 6** | 4 bisged | **£10.00 i'w rannu** |

## GOSOD BLODAU

| | | |
|---|---|---|
| **38. Gosod blodau 16 oed ac iau** | Casgliad o flodau gwyllt | **£10.00 i'w rannu** |

# Cyfarfod yr hwyr ( i ddechrau am 6:00 yr hwyr)

## CERDDORIAETH AC OFFERYNNOL

| | | |
|---|---|---|
| **1. Unawd Blwyddyn 7, 8, 9 a 10** | Hunanddewisiad | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **2. Unawd dan 19 oed** | Hunanddewisiad | **1af £20 2il £15 3ydd £10** |
| **3. Unawd 19 – 30 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **4. Y Brif Unawd** | Hunanddewisiad *(cystadleuwyr i anfon copi / cysylltu gyda'r cyfeilydd erbyn Mai 6ed 2023)* | **1af £50 2il £30 3ydd £20** |
| **5. Unawd o Sioe Gerdd dan 30 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **6. Unawd dros 50 oed** | Hunanddewisiad - *Tlws Blynyddol er cof am John a Ceri Owen, Hafod y Gân* | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **7. Canu Emyn agored** | Unrhyw Emyn | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **8. Unawd Cerdd dant Blwyddyn 7, 8,9 a 10** | Hunanddewisiad | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **9. Unawd Cerdd dant dan 19 oed** | Hunanddewisiad | **1af £20 2il £15 3ydd £10** |
| **10. Unawd Cerdd dant 19 – 30 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **11. Unawd Alaw Werin 7,8,9 a 10** | Hunanddewisiad | **£1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **12. Unawd Alaw Werin dros 15 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **13. Unawd Wreiddiol Gymraeg** | Hunanddewisiad *(cystadleuwyr i anfon copi / cysylltu gyda'r cyfeilydd erbyn Mai 6ed 2023)* | **1af £30 2il £25 3ydd £20** |
| **14. Parti Unsain / Deulais** *(Dim llai na 6 mewn nifer)* | Hunanddewsiad | **1af £40 2il £25 3ydd £15** |

| | | |
|---|---|---|
| **15. Wythawd** | Hunanddewisiad | **1af Cwpan a £30 2il £20 3ydd £15** |
| **16. Cystadleuaeth Gorawl** *(Dim llai na 16 mewn nifer)* | Dau ddarn cyferbyniol<br>- *Tlws yn rhodd gan Gôr Pwllglas* | **1af £100 2il £60 3ydd £40** |
| **17. Ensemble Lleisiol** *(Perfformiad dim mwy na 5 munud)* | Hunanddewisiad gyda chyfeiliant neu'n ddi-gyfeiliant. Geiriau Cymraeg. *(cystadleuwyr i anfon copi / cysylltu gyda'r cyfeilydd erbyn Mai 6ed 2023)* | **1af £30 2il £20 3ydd £15** |
| **18. Unawd Offerynnol 12-25 oed:** *(Dim mwy na 7 munud)* | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |

## LLEFARU

| | | |
|---|---|---|
| **19. Llefaru blwyddyn 7,8,9,10** | Hunanddewisiad | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **20. Llefaru i ddysgwyr blwyddyn 7,8,9,10** | Hunanddewisiad | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **21. Llefaru 15 – 30 oed** | Hunanddewisiad | **1af £25 2il £20 3ydd £15** |
| **22. Prif Adroddiad** | Hunanddewisiad | **1af £50 2il £30 3ydd £20** |

## ★ CYSTADLEUAETHAU CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU ★

| | | |
|---|---|---|
| **23. 'S'gen ti Dalent?'**<br><br>*Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw'r cystadleuwyr yn dymuno defnyddio props/offer/ offerynnau cerdd a.y.b.*<br><br>*Rhaid i'r perfformiad fod yn addas i gynulleidfa deuluol. Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith. Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall yn yr Eisteddfod.* | Cystadleuaeth arbennig Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Cystadleuaeth unigryw yw hon er mwyn creu ychydig o adloniant.<br><br>Agored i unigolion neu grwpiau. Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa drwy ganu, dawnsio, actio, llefaru, dweud jôcs, canu offeryn, gwneud triciau, unrhyw beth fydd yn difyrru'r gynulleidfa. | **Dyfernir y wobr o £50**<br><br>*(i'w rhannu fel mae'r Beirniaid yn dymuno) am y perfformiad/au sydd wedi eu diddanu orau. Ni ddylir rhoi mwy na £25 yn wobr gyntaf.* |

## LLENYDDIAETH

| | | |
|---|---|---|
| **24. Blwyddyn 7 a 8** | Ymson Anifail Gwyllt | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **25. Blwyddyn 9 a 10** | Erthygl ar unrhyw drychineb naturiol | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **26. Blwyddyn 11 i 13** | Gwaith mewn urnhyw ffurf:<br>Tân yn fy mol. | **1af £15 2il £10 3ydd £8** |
| **27. Limrig: Gorffennwch y Limrig** | *'Un noson a chorwynt yn chwythu,*<br>*Fe sleifiodd Jane Ann draw i'w gwely'* | **1af £8 2il £6 3ydd £4** |
| **28. Rhyddiaith agored** | Talu'r Pwyth | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |
| **29. Barddoniaeth agored** | Newid | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |

| | | |
|---|---|---|
| **30. Barddoniaeth : Englyn Digrif** | Gwleidydd | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |
| **31. Cyfansoddi Emyn – Thema :** | Dydd Gŵyl Dewi | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |

## CYFANSODDI TÔN

| | | |
|---|---|---|
| **32. Cyfansoddi Tôn ar y geiriau canlynol** | Emyn | **1af £15 2il £12 3ydd £10** |

1. Diolch am y naws i warchod
ac nid difa, nabod gwerth
ein treftadaeth wych, naturiol,
cwm, ucheldir, dôl a pherth.
Cyd-ddiolchwn
am oludoedd Dy ystad.

2. Diolch am y border teulu,
rhos y mynydd, lili'r cwm,
par in weithio'n daer i'w harbed
cyn i'r tirwedd droi'n rhy llwm.
Cyd-ddiolchwn
am heirdd flodau'th erddi Di.

3. Diolch am yr afon groyw
sy'n ein llonni ar ei thaith,
arbed hi rhag llygredd heintus
a chemegau brwnt ein gwaith.
Cyd-ddiolchwn
am brydferthwch cread pur.

4. Diolch am yr holl greaduriaid
sydd yn troedio'r tiroedd draw,
diogela'u prin gynefin
rhag yr heliwr, poen a braw.
Cyd-ddiolchwn
Am fwystfilod rhwysgfawr, hardd.

5. Diolch am ein hetifeddiaeth,
Dy greadigaeth enfawr Di,
rhaid ei chadw'n iach a'i pharchu,
safwn i'w hamddiffyn hi.
Cyd-ddiolchwn, a gweddiwn
am Dy rym cynhaliol Di.

*Awen Powell*
*Enillydd Cyfansoddi Emyn 2019*

## ARLUNIO A GWAITH LLAW

| | | |
|---|---|---|
| **33. Blwyddyn 7 i 11 (Arlunio)** | Planhigyn tŷ | **£8.00 i'w rannu** |
| **34. Blwyddyn 7 i 11 (Gwaith llaw)** | Collage o'r Môr | **£8.00 i'w rannu** |
| **35. Gwaith Llaw Agored** | Mat bwrdd (unrhyw gyfrwng) | **£10.00 i'w rannu** |
| **36. Ffotograffiaeth Agored** | Dathlu | **£10.00 i'w rannu** |

## COGINIO A GOSOD BLODAU

| | | |
|---|---|---|
| **37. Gosod Blodau Agored** | Gosodiad mewn basged | **£10.00 i'w rannu** |
| **38. Coginio Agored** | Tarten afal | **£10.00 i'w rannu** |
| **39. Coginio Agored (gyda ryseit)** | Cacennau bach 'Sticky Toffee' | **£10.00 i'w rannu** |

# Cacennau bach 'Sticky Toffee'

***(Cyflwyno 4 cacen)***

**Cynhwysion** Digon i wneud 12

**Cacennau**

180g dates, wedi'u malu'n fân
1 llwy de o vanilla essence
180g o flawd codi
1 llwy de o 'bicarbonate of soda'
80g o fenyn wedi ei feddalu
150g o siwgr golau muscovado
2 ŵy, wedi'u curo

**Caramel**

125g o siwgr caster
80ml o hufen dwbl
½ llwy de o halen, i flasu
1 llwy de o vanilla essence

**Hufen Menyn** ***(Buttercream)***

160g o fenyn
200g o siwgr eisin

**Dull** **Popty 180°c /350°f / Nwy 4**

Gosod 12 cês papur mewn tun crasu

**I wneud y Cacennau**

- Arllwyswch 100ml o ddŵr berwedig dros y 'dates' a'u gadael i socian am 20 munud. Yna torrwch nhw i fyny gyda fforc ac ychwanegu y vanilla essence
- Hidlwch y blawd a'r bicarb i fowlen a'i roi o'r neilltu
- Hufenwch y menyn a'r siwgr gyda'i gilydd am 5 munud go dda tan yn ysgafn a 'fluffy'
- Ychwanegwch y wyau yn raddol, gan guro'n dda. Ychwanegwch 1 llwy fwrdd o flawd hanner ffordd i atal 'curdlo'
- Rhowch y blawd sy'n weddill i mewn ac yna ychwanegu'r 'dates'
- Rhowch y gymysgedd mewn i'r casys a'u pobi ar 180 gradd am 15-20 munud

**I wneud y Caramel**

- Toddwch siwgr a 60ml o ddŵr mewn sosban, cynyddwch y gwres i ferwi
- Arhoswch ychydig funudau, peidiwch â throi, ond daliwch ati i wylio, cyn gynted ag y bydd yn newid i liw caramel, tynnwch oddi ar y gwres ac ychwanegwch yr hufen. Byddwch yn ofalus gan y gallai dasgu.
- Daliwch i droi'n ofalus, bydd yn ymateb ac efallai y byddwch yn meddwl ei fod wedi mynd o'i le, ond daliwch ati i'w droi gan ychwanegu'r halen a fanila.
- Gadael iddo oeri

**I wneud yr Hufen Menyn (Buttercream)**

- Hufenwch y menyn a'r siwgr eisin gyda'i gilydd, yna ychwanegwch y caramel

- Pibiwch neu taenwch yr hufen menyn ar y cacennau bach sydd wedi'u hoeri

# AMODAU

| | |
|---|---|
| **1.** | Ni wobrwyir oni bydd teilyngdod, a bydd hawl gan y Beirniaid i atal neu rannu'r wobr. |
| **2.** | Bydd hawl gan y Beirniaid i ychwanegu at y wobr, os bydd teilyngdod, i gystadleuwyr dan 16 oed. |
| **3.** | **Pob cystadleuydd i ofalu am gopi i'r Beirniad [a'r Cyfeilydd].** |
| **4.** | **Y cystadleuwyr ar y Brif Unawd, Unawd Wreiddiol Gymraeg a'r Unawd allan o Unrhyw Sioe Gerdd i gysylltu â'r Cyfeilydd (01745 890 583) erbyn Mai 6ed 2023.** |
| **5.** | Os ceir unrhyw anhawster i gael copi ar gyfer unrhyw gystadleuaeth, cysyllter â'r ysgrifennydd. |
| **6.** | Caniateir i blant dan 16 oed ganu mewn unrhyw gyweirnod (heblaw yn y darnau gosod). |
| **7.** | Y Cyfansoddiadau mewn Llenyddiaeth, Barddoniaeth a Chyfansoddi Tôn i'w hanfon at y Beirniad [nid yr Ysgrifennydd] **erbyn Dydd Sadwrn, Mai 6ed 2023** |
| **8.** | Cedwir hawlfraint ar y gwaith llenyddol gan yr Eisteddfod am flwyddyn. |
| **9.** | Y cynhyrchion yn yr adran Arlunio, Gwaith Llaw, Coginio a Gosod Blodau i'w dwyn i'r Neuadd **cyn 6.00 o'r gloch Nos Wener, Mai 19eg 2023.** |
| **10.** | Ar y cystadlaethau Llenyddiaeth, Arlunio, Gwaith Llaw, Coginio a Gosod Blodau Blwyddyn 11 ac iau, defnyddier enwau cywir (nid ffugenw), oedran a chyfeiriad e.e. Enw Ysgol. |
| **11.** | Dylai enw iawn pawb Blwyddyn 11 ac uwch yng nghystadlaethau a enwir yn amod 7 uchod fod yn llaw'r ysgrifennydd ynghyd â'r ffug enw, os na all y cystadleuydd fod yn bresennol, a dylid amgáu amlen wedi'i chyfeirio a'i stampio os dymunir cael y gwaith yn ôl. |
| **12.** | Dylai enwau [neu ffug enwau] cystadleuwyr fod **ynghlwm â'u gwaith** yn y cystadlaethau a enwir yn amodau 7 a 9 uchod. |
| **13.** | Mae pawb i fod yn gyfrifol am gael eu gwobrau ym mhob cystadleuaeth, [a'u heitemau yn 7 a 9 uchod]. |
| **14.** | Ni chaniateir i'r buddugol ar y Brif Unawd gystadlu ar yr Unawd Wreiddiol Gymraeg. |
| **15.** | Pob cystadleuydd i fod yn yr oedran priodol yn ôl rheolau Eisteddfod yr Urdd, a phob cystadleuydd i ddilyn unrhyw newidiadau a chywiriadau yn y darnau gosod fel yr amlinellwyd gan Eisteddfod yr Urdd. |
| **16.** | Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus. |
| **17.** | Unrhyw ddarnau hunan ddewisiad i fod yn yr iaith Gymraeg. |
| **18.** | Yng nghystadleuaeth Cyfansoddi Emyn, bydd yr Emyn buddugol yn cael ei gynnwys yn rhaglen Eisteddfod 2024, ar gyfer cystadleuaeth Cyfansoddi Tôn. |
| **20.** | **Byddwn yn tynnu lluniau yn ystod yr Eisteddfod a'u defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol. Os nad ydych eisiau i'ch llun gael ei gynnwys, mae'n bwysig hysbysu'r ysgrifennydd cyn i'r gystadleuaeth ddechrau o.g.y.dd.** |